Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ymweliad
# Lefel gweithgarwch dilynol: mesurau arbennig

**Ysgol Ffordd Dyffryn**
**Ffordd Dyffryn**
**Llandudno**
**Conwy**
**LL30 2LZ**

**Dyddiad yr ymweliad: Ebrill 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Richard Lloyd | Arolygydd Cofnodol |
| Jane McCarthy | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Ysgol Ffordd Dyffryn wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Hydref 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno sesiynau darllen strwythuredig dan arweiniad yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, ynghyd â system ffoneg ar gyfer gwella medrau llythrennedd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau darllen a mwynhad disgyblion o lyfrau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth glir o ffoneg ac adnabod llythrennau a seiniau. Mae asesiadau gan staff yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwella'u medrau darllen ac ysgrifennu yn sylweddol ers cyflwyno'r mentrau hyn.

Bu gwelliant sylweddol mewn safon ysgrifennu, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Mae disgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau ysgrifennu mewn gwersi Saesneg ac ar draws y cwricwlwm, er enghraifft, wrth ysgrifennu casgliadau ymchwiliadau gwyddonol ac adroddiadau hanesyddol. Mae disgyblion mwy abl yn ymateb yn dda i her ychwanegol a lluniant ddarnau o ysgrifennu estynedig difyr at ddibenion amrywiol. Mae'r ysgrifennu hwn yn aml yn cael ei drefnu'n baragraffau effeithiol ac yn cynnwys amrywiaeth o eirfa rymus ac atalnodi sy'n egluro'r ystyr yn effeithiol i'r darllenwr.

Mae'r ysgol yn parhau i wneud cynnydd da yn gwella medrau mathemategol disgyblion. Mae defnyddio cynllun cyhoeddedig yn helpu disgyblion ar bobl lefel i wneud y cynnydd disgwyliedig. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ar draws yr ysgol. At ei gilydd, mae'r ysgol wedi llwyddo i ddatblygu gallu disgyblion i ddefnyddio'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw lefel yr her mewn tasgau rhifedd ar draws y cwricwlwm bob amser yn ddigon uchel. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y Cyfnod Sylfaen uwch. O ganlyniad, nid yw ychydig ddisgyblion mwy abl yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent.

Mae athrawon wedi mabwysiadu cynllun gwaith priodol ar gyfer gwyddoniaeth ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae'r cynllunio bellach yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gwaith diweddar mewn llyfrau disgyblion yn dangos cynnydd o ran faint o waith archwiliadol a wneir, ar y lefel briodol yn gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn dda i dasgau datrys problemau heriol. Mae mwyafrif o'r disgyblion hŷn yn dechrau defnyddio'u medrau rhesymu yn briodol wrth drafod eu canlyniadau.

Mae'r ysgol yn cofnodi ac yn monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae rheolwyr a staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio gwersi a nodi lefel gywir y cymorth a'r her i ddisgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da at ei gilydd. Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas i sicrhau bod barnau asesiadau athrawon yn adlewyrchu gwaith disgyblion yn gywir.

Mae data ar berfformiad yr ysgol yn dangos ei bod yn dal i berfformio islaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ym mhob maes dysgu. Mae darlun tebyg i'w weld ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, lle y mae perfformiad yr ysgol hefyd yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ym mhob pwnc craidd.

**Argymhelliad 2: Gwella'r cynllunio ar gyfer datblygiad cynyddol medrau allweddol disgyblion ar draws y cwricwlwm**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae defnydd yr ysgol o nifer o gynlluniau masnachol wedi helpu i sicrhau bod yr hyn sy'n cael sylw yn y cwricwlwm yn bodloni gofynion statudol. Mae uwch arweinwyr wedi sefydlu dull ysgol gyfan, cyson, o gynllunio er mwyn sicrhau parhad a dilyniant. O ganlyniad, mae cynlluniau rhesymegol ar waith i ddatblygu medrau disgyblion mewn ffordd gynyddol yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2.

Mae gwaith mewn llyfrau disgyblion yn dangos ystod dda o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion hŷn yn cael cyfleoedd rheolaidd i ysgrifennu'n helaeth mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae marcio gwaith ysgrifenedig gan athrawon yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau ysgrifennu penodol ac mae disgyblion yn ymateb yn dda i adborth llafar ac ysgrifenedig i wella neu fireinio'u gwaith. Mae'r broses hon yn helpu llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu rhifedd ar draws meysydd dysgu. Enghraifft o hyn yw disgyblion yn defnyddio siartiau cyfrif i gofnodi canlyniadau gwyddonol a chynhyrchu graffiau yn annibynnol. Fodd bynnag, nid yw lefel yr her yn y gweithgareddau hyn bob amser yn ddigon uchel. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddefnyddio medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau datrys problemau a meddwl yn effeithiol i ddod i gasgliadau o ddata a chwestiynu eu canlyniadau. Fodd bynnag, mae disgyblion yn cael llai o gyfleoedd i gymhwyso medrau rhif ar lefel ddigon heriol.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud defnydd da o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) at amrywiaeth eang o ddibenion, er enghraifft defnyddio cyflwyniadau amlgyfrwng yn dilyn ymchwil grŵp ar ddefnyddio magnetau mewn bywyd bob dydd.

**Argymhelliad 3: Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae staff yn darparu'n dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol wedi sefydlu systemau da ar gyfer sicrhau darpariaeth briodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd ac mewn grwpiau bychain. Mae'n monitro gwaith a chynnydd disgyblion yn effeithiol ac yn gweithio'n agos gyda thîm medrus o gynorthwywyr cymorth dysgu i gynllunio a chyflwyno ystod briodol o strategaethau ymyrryd ar gyfer unrhyw ddisgybl nad yw ei gynnydd cystal ag y dylai fod. Mae'r cofnodion manwl yn eu galluogi i addasu lefel yr ymyrraeth yn ôl y cynnydd a wna pob disgybl.

Erbyn hyn, mae'r ysgol yn nodi disgyblion ag anghenion ychwanegol pan fyddant yn ifanc iawn. Mae sesiynau cymorth yn yr amserlen yn galluogi disgyblion sydd mewn perygl o ddisgyn ar ei hôl hi i wneud cynnydd da. Mae hyn wedi arwain at enghreifftiau o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd sylweddol sy'n eu galluogi i integreiddio i ddosbarthiadau prif ffrwd.

**Argymhelliad 4: Darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer gwaith yr ysgol sy'n hyrwyddo disgwyliadau uchel gan bawb**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Bu newidiadau arwyddocaol yn rheolaeth yr ysgol yn ddiweddar sydd wedi sicrhau cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae'r pennaeth sydd wedi'i 'gomisiynu' ar hyn o bryd wedi rhoi arweinyddiaeth effeithiol ac wedi sicrhau bod yr ysgol yn parhau i fynd i'r afael â'i blaenoriaethau gwella yn y cyfnod interim. Bydd pennaeth parhaol newydd yn ymgymryd â'i swydd ym Medi 2014. Mae'r dirprwy bennaeth dros dro wedi dychwelyd i'w rôl athro dosbarth ac mae hyn, ynghyd ag athro parhaol newydd ei benodi, wedi sicrhau cysondeb mewn addysgu a dysgu i ddisgyblion drwy gydol cyfnod allweddol 2.

Mae tîm arwain yr ysgol yn rhoi addysg effeithiol ac ysgogol i ddisgyblion i'w galluogi i gyrraedd eu potensial. Mae gan aelodau'r uwch dîm rheoli feysydd cyfrifoldeb sydd wedi'u diffinio'n dda. Defnyddiant eu harbenigedd yn dda i sicrhau gwelliannau, er enghraifft mewn ymddygiad disgyblion ac wrth helpu'r corff llywodraethol i gael dealltwriaeth well o gyrhaeddiad disgyblion. Mae gan yr ysgol arweinwyr pwnc effeithiol ar gyfer Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac anghenion dysgu ychwanegol.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn sicrhau bod uwch arweinwyr yn ymgynghori â'r holl athrawon ac yn eu cynnwys nhw i gyd cyn rhoi mentrau a gweithdrefnau newydd ar waith. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac maent yn rhannu ymrwymiad cyffredin i godi safonau. Fodd bynnag, nid yw ychydig athrawon yn herio disgyblion yn ddigonol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaeth gadarn ac effeithiol gydag ysgol arall yn yr un awdurdod lleol i godi safonau addysgu, dysgu a llywodraethu ysgolion. Mae athrawon a llywodraethwyr wedi cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, bob un ohonynt â ffocws cryf ar wella darpariaeth. Mae'r ddarpariaeth well yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, er enghraifft yn y gwelliant mewn medrau ysgrifennu yng nghyfnod allweddol 2.

Mae cynllun datblygu presennol yr ysgol yn ymgorffori'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad ac yn nodi camau addas i wella safonau addysgu a dysgu.

**Argymhelliad 5: Gwella effeithiolrwydd y corff llywodraethol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r corff llywodraethol wedi gweithio'n effeithiol gydag ysgol leol arall ac, yn fwy diweddar, y consortiwm addysg rhanbarthol, i wella'i waith. Erbyn hyn, mae llywodraethwyr yn cynnig cymorth a her fuddiol i'r ysgol sy'n arwain at welliannau mewn addysgu a dysgu. Mae llywodraethwyr yn dadansoddi data a chynnydd yr ysgol yn unol â'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad yn ofalus. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o berfformiad presennol yr ysgol a'i chynlluniau gwella ar gyfer y dyfodol.

Mae rhai llywodraethwyr bellach yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i fonitro gwaith yr ysgol. Rhoddant adroddiadau ar yr ymweliadau hyn i'r corff llywodraethol llawn. Mae'r ymweliadau hyn wedi rhoi dealltwriaeth well iddynt o addysgu a dysgu a sut mae'r ysgol yn gweithio o ddydd i ddydd.

Mae'r corff llywodraethol wedi gwneud penderfyniadau pwysig ynghylch arweinyddiaeth bresennol yr ysgol a'i harweinyddiaeth yn y dyfodol. Mae'r datblygiadau hyn wedi dwyn mwyn o sefydlogrwydd i'r ysgol.

**Argymhelliad 6: Rhoi system drylwyr o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar waith sy'n defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol. Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithgareddau monitro priodol mewn amserlen flynyddol sy'n cynnwys craffu ar waith disgyblion, arsylwadau gwersi a dadansoddi data. Mae adroddiadau a luniwyd yn dilyn arsylwadau a chraffu ar waith disgyblion yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar gynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn ystod gweithgarwch monitro yn dda i nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella ac i adolygu a mesur effaith unrhyw fentrau ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r ysgol wedi llunio adroddiad manwl ar sail deilliannau'r holl weithdrefnau hunanarfarnu. Mae'n cynnwys dadansoddiad defnyddiol a chynhwysfawr o ddata, ac mae'n nodi cryfderau'r ysgol a meysydd priodol i'w datblygu yn glir.

Mae cylch rheoli perfformiad ar waith erbyn hyn ar gyfer athrawon ac mae gan yr holl athrawon dargedau yn ymwneud â gwella deilliannau ar gyfer y disgyblion yn eu

dosbarthiadau.  Mae pecyn hunanarfarnu ar gyfer addysgu yn galluogi athrawon i fyfyrio ar eu harfer a nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Mae'r ysgol wedi parhau i ymgysylltu â rhieni a disgyblion yn dda.  O ganlyniad, mae'r ysgol wedi ailsefydlu cymdeithas rieni ac wedi cyflwyno clinigau lle y mae rhieni yn codi unrhyw bryderon sydd ganddynt am faterion yn ymwneud â'r ysgol. Mae arweinwyr yn cael cyfarfodydd buddiol, rheolaidd â chyngor yr ysgol i gasglu barn disgyblion neu eu cynnwys mewn gweithgarwch pwrpasol.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at fodloni'r argymhellion arolygu nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.